# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Oaks**

**Heol Llanidloes**
**Y Drenewydd**
**SY16 1HL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Oaks

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | The Oaks (Newtown Ltd.) |
| Lleoedd cofrestredig | 73 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14/11/22 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus gyda'r gofal a'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn yn The Oaks ac mae ganddynt ddewis o ran sut i dreulio eu hamser, beth i'w fwyta a sut yr hoffent dderbyn gofal. Mae'r tîm gweithgareddau ymroddedig yn trefnu digwyddiadau, gwibdeithiau a gweithgareddau mewnol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cynnig ysgogiad i'r bobl. Cawsom adborth cadarnhaol gan y preswylwyr, y staff a'u teuluoedd am The Oaks.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r canllawiau gofal. Maent yn benodol i bob person ac yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig iddynt a sut i ddarparu gofal er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r darparwr wedi dechrau ymgysylltu â'r bobl a/neu eu cynrychiolydd wrth adolygu cofnodion. Ceisir barn y bobl sy'n golygu bod ganddynt lais yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel a glân sy'n hybu eu hannibyniaeth. Mae gan y bobl offer priodol ar waith ac maent yn cael eu cefnogi i gael mynediad i bob rhan o'r cartref. Mae'r darparwr wedi ymrwymo i ddatblygu'r amgylchedd gydag arweiniad proffesiynol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y bobl sy'n byw â Dementia.

Mae'r darparwr wedi rhoi systemau monitro ac adolygu ar waith sy'n golygu bod ganddo oruchwyliaeth dda o bob rhan o'r cartref. Maent yn nodi lle mae angen gwelliannau ac yn pennu camau gweithredu penodol o ran amser i sicrhau yr eir i'r afael â'r rhain er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i weithdrefnau recriwtio, gan gynnwys y staff asiantaeth sydd, ynghyd â hyfforddiant a datblygiad y staff, yn golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff â chymwysterau addas.

## Llesiant

Dywed y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn The Oaks. Mae'r sylwadau yn cynnwys "*Staff are very nice*," ac "*Lucky I am, went to holy mass yesterday and that's important.*" Gwelsom fod y staff gofal yn garedig ac yn rhyngweithiol gyda'r bobl, ac yn cymryd eu amser i siarad, creu awyrgylch hwyliog, atyniadol. Clywsom ymwelwyr yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y staff gofal.

Mae'r darparwr wedi cyflogi tîm gweithgareddau sy'n siarad â'r bobl ac yn cyfeirio at gofnodion gofal gan ddweud wrthym fod hyn er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Trefnir teithiau allan ac mae'r bobl wedi mwynhau ymweliadau gan gantorion, diddanwyr syrcas ac anifeiliaid. Anogir y bobl i gymryd rhan mewn gemau a chwisiau gyda'r tîm gweithgareddau gan sicrhau bod y bobl sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp hefyd yn cymryd rhan. Mae lefelau staffio uwch yn golygu bod gan y staff amser i'w dreulio gyda'r bobl ac yn y prynhawn, gwelsom bobl yn lliwio, yn chwarae gemau, ac yn gwneud addurniadau ar gyfer parti'r coroni gyda'r staff. Mae gan fannau cymunedol eitemau i'r bobl ymgysylltu â nhw gan gynnwys basgedi synhwyraidd, llyfrau fidget a theganau meddal sy'n helpu i wneud defnydd o ddwylo'r bobl a darparu cysur. Dangosodd y staff hefyd gymhorthion darluniadol i gefnogi'r bobl gyda chyfathrebu. Mae cofnodion yn dangos bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r preswylwyr a'u teuluoedd. Mae'r tîm gweithgareddau a'r rheolwr arlwyo yn hwyluso'r rhain i gael adborth ac awgrymiadau gan y bobl.

Crëir cofnodion gofal gyda'r bobl neu eu cynrychiolydd ac maent yn cynnwys gwybodaeth am fywyd y person a'r hyn sy'n bwysig iddynt ar hyn o bryd. Mae cofnodion yn adlewyrchu anghenion y bobl ac yn dogfennu pa gymorth sydd ei angen gan gynnwys unrhyw risgiau cysylltiedig. Mae'r system electronig yn creu nodiadau atgoffa ar gyfer pryd mae angen adolygu cofnodion. Mae'r staff gofal yn defnyddio dyfeisiau llaw i gofnodi gwybodaeth yn ystod y dydd a gwelwyd bod cofnodion yn adlewyrchu'r cymorth a ddarparwyd.

Mae'r bobl yn mwynhau profiad cadarnhaol adeg prydau bwyd. Mae bwydlenni ar gael yn ddwyieithog ac mae byrddau wedi'u gosod gyda matiau bwrdd, cwpanau, platiau a phowlenni sy'n cefnogi annibyniaeth. Darperir ar gyfer gofynion dietegol y bobl, a chanfuom fod prydau bwyd yn ddeniadol i'r golwg, a dywedodd y staff fod hyn wedi gwella'n fawr ar gyfer y bobl ar ddiet amgen. Mae'r staff gofal yn eistedd ac yn bwyta gyda'r bobl i annog sgwrs a hybu bwyta prydau.

Mae'r bobl yn ddiogel yn byw yn The Oaks am eu bod yn cael eu cefnogi gan y staff sy'n addas ar gyfer y rôl ac sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae gan y bobl asesiadau risg ar waith ac adolygir ffurflenni monitro yn rheolaidd. Adroddir yn briodol ar faterion diogelu ac mae gan y rheolwr systemau ar waith i fonitro ac adolygu hyn.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn hyderus y gall The Oaks ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth gan fod y rheolwr yn cynnal asesiad cyn derbyn gyda'r person a/neu ei gynrychiolydd yn ei breswylfa bresennol. Cesglir gwybodaeth gan y bobl, gwybodaeth awdurdodau lleol a chan y darparwr presennol. Mae proffiliau'n cael eu creu ar y system electronig cyn i'r person ddechrau eu harhosiad yn The Oaks ac yna'n cael ei adolygu ac ychwanegu ato wrth i wybodaeth newydd gael ei chasglu. Lle gall y bobl, fe'u hanogir i ymweld â'r cartref i ddod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r staff.

Mae cofnodion yn cynnwys meysydd gofal a chymorth penodol ac maent yn wahanol i bob person yn dibynnu ar angen a risg. Gwelsom gofnodion lle'r oedd person wedi mynegi ei ddymuniadau'n glir ynghylch pwy roeddent am ei gynnwys a sut roedd am i ofal gael ei ddarparu. Dywedodd un person wrthym ei fod yn hapus iawn yn byw yn The Oaks, *"I'm treated very very well, carers are very good to me, they see to all my needs."* Mae cofnodion eraill yn dangos bod trafodaethau wedi'u cynnal ag aelodau'r teulu, gan gynnwys lle'r oedd newid i angen neu gynllun triniaeth. Mae cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am hanes bywyd y bobl, eu hoffterau, yr hyn sy'n bwysig iddynt ar hyn o bryd a dulliau gweithredu er mwyn cyfathrebu'n effeithiol.

Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod. Gwelsom rai pobl yn codi'n gynnar tra bod eraill yn dewis cael brecwast mewn dillad nos ac yna'n dechrau ar eu trefn foreol. Gall y bobl gael mynediad i ardaloedd cymunedol y llawr y maent yn byw arno, gan dreulio amser yn y llyfrgell, y lolfa neu'r ardal fwyta fawr lle mae pobl yn ymgynnull trwy gydol y dydd i gael diodydd, byrbrydau a chymdeithasu. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i gael mynediad i rannau eraill o'r cartref i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel teithiau cerdded yn yr ardd neu dripiau allan. Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd y bobl yn paratoi ar gyfer taith i lan y môr. Mae'r staff gofal yn sylwgar ac yn ofalgar, maent yn gwybod trefn arferol y bobl, felly mae'r amgylchedd yn dawel ac yn hamddenol. Mae galwadau am gymorth naill ai ar lafar neu drwy ddefnyddio'r system gloch yn cael eu bodloni'n brydlon ac mae gan y bobl sy'n dewis aros yn eu hystafelloedd fynediad at y system cloch alw, diodydd, a chwmni drwy'r dydd. Mae'r rheolwr wedi rhoi system ar waith i wneud yn siwr bod yr holl glychau galw yn gweithio ddwywaith y dydd a chaiff hyn ei recordio.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gydag apwyntiadau iechyd ac ymrwymiadau eraill sy'n cael eu cofnodi yn y dyddiadur dyddiol. Gwelsom ymweliadau gan y ffisiotherapydd, yr offthalmolegydd a'r seiciatrydd. Cafodd un person gyfarfod ag eiriolwr o Age Concern.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i reoli meddyginiaeth. Mae'r darparwr wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol i nodi materion a rhoi prosesau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain. Bellach ceir dull gweithredu cyson ar draws pob llawr, a gwelsom ganllawiau clir mewn ystafelloedd meddyginiaeth i gefnogi'r staff. Mae'r staff gofal yn gymwys i ddefnyddio'r system feddyginiaeth electronig a chynhelir rowndiau meddyginiaeth mewn modd amserol heb ymyrraeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac mae'n darparu ystafelloedd sengl en-suite gyda sawl man cymunedol i'r bobl gael mynediad iddynt. Mae coridorau'n caniatáu i'r bobl symud o gwmpas yn ddiogel gyda mannau eistedd i eistedd a siarad â'i gilydd. Mae ardaloedd cymunedol yn fawr ac yn caniatáu mynediad i'r bobl sydd angen cadeiriau arbenigol neu offer symud a thrin. Mae gan bob llawr ardal dec yn yr awyr agored sy'n ddiogel i'r bobl gael awyr iach. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i gael mynediad i'r ardd ar y llawr gwaelod pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Mae'r cartref yn lân ac yn daclus Mae ystafelloedd ymolchi cymunedol wedi'u cyfarparu'n dda ac yn cael eu cynnal a'u cadw fel y gall y bobl fwynhau defnyddio'r mannau hyn yn ystod gofal personol. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli, gyda lluniau neu flychau atgofion er mwyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w hystafell. Mae'r tîm cadw tŷ yn gweithio'n galed i sicrhau bod ystafelloedd y bobl yn lân a bod y dillad gwely'n cael eu golchi'n ffres. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff yn ogystal â chyfleusterau golchi dwylo mewn ystafelloedd en-suite, yn dibynnu ar asesiad risg.

Mae'r bobl yn ddiogel yn byw yn The Oaks, mae teledu cylch cyfyng y tu allan i'r adeilad ac o fewn rhai ardaloedd cymunedol o'r cartref. Mae hyn o fewn y datganiad o ddiben ac wedi'i arwyddo'n glir ledled y cartref. Rhaid i'r bobl lofnodi i mewn ac allan o'r gwasanaeth ac mae codau allwedd yn cadw mannau penodol yn ddiogel, ond mae teuluoedd a ffrindiau'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael gwybod am y rhain a gwelwyd eu bod yn mynd a dod drwy'r dydd heb gyfyngiad.

Mae'r darparwr wedi gosod ffilm preifatrwydd ar ffenestri'r ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod sy'n wynebu'r maes parcio i sicrhau na fydd ymwelwyr sy'n mynd i'r maes parcio yn gweld y bobl.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae newidiadau wedi'u gwneud i strwythur rheoli'r gwasanaeth. Dywedodd un aelod o staff wrthym *“Things have really improved, systems have been put in place meaning we all work in the same way.”* Mae cofnodion yn dangos bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd sy'n trafod pob rhan o'r cartref gan gynnwys myfyrio ar arferion gofal. Mae sifftiau wedi'u strwythuro a rhoddir dyraniadau penodol i'r staff, ac mae hyn ynghyd â phroses drosglwyddo newydd wedi cael derbyniad da gan staff a siaradodd yn gadarnhaol am y newidiadau.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda; mae cofnodion yn dangos bod hyfforddiant craidd wedi'i gwblhau yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ychwanegol drwy'r awdurdod lleol a hwyluswyr hyfforddiant preifat. Mae'r sefydliad wedi buddsoddi mewn staff, gan eu cefnogi i ddod yn hyfforddwyr sy'n golygu bod arweiniad a chymorth ar gael yn fewnol. Mae'r cartref hefyd wedi gwneud cysylltiadau â'r darparwyr lleol eraill gan eu gwahodd i ddilyn cyrsiau yn y cartref sydd o fudd i'r gymuned ofal ehangach. Mae'r darparwr wedi gweithio'n galed i wella lefelau staffio yn y cartref yn llwyddiannus wrth recriwtio'r staff gofal a nyrsio. Bu gostyngiad yn y defnydd o staff asiantaeth. Fodd bynnag, lle mae hyn yn angenrheidiol, mae'r cartref yn cyfathrebu ag asiantaethau i sicrhau bod y staff rheolaidd yn mynychu'r gwasanaeth sydd wedi cael cyfnod sefydlu ac wedi'u hyfforddi'n briodol.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod digwyddiadau, pryderon diogelu a chwynion yn cael eu cofnodi, yr ymatebir iddynt, ac yr eir i'r afael â hwy yn briodol. Mae’r rheolwr yn cyfathrebu â’r tîm diogelu lleol ac yn hysbysu’r rheolydd yn ôl yr angen. Mae cyfathrebu a throsolwg wedi gwella gydag uwch ofalwyr ar bob llawr yn hwyluso trosglwyddiadau, dyraniadau dyddiol ac adolygu camau gweithredu mewn dyddiaduron a llyfrau cyfathrebu.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i arferion recriwtio. Gwnaethom adolygu cofnodion y staff a chanfod bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i'r person ddechrau gweithio yn y gwasanaeth, gan sicrhau eu bod yn ffit ac yn addas i weithio gyda'r bobl sy'n wynebu risg. Mae'r staff asiantaeth yn gyson ac yn adnabod y cartref. Mae'r ffeil asiantaeth ar gael fel y gall y staff wirio pwy yw'r bobl a chwblhau sesiwn sefydlu gyda nhw ar eu sifft gyntaf.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei fonitro'n barhaus. Cwblheir archwiliadau o fewn y cartref gan y rheolwyr a'r uwch dîm a chwblheir archwiliadau chwarterol ychwanegol gan y sefydliad. Gwelsom fod yr archwiliad diweddaraf wedi nodi meysydd i fynd i'r afael â hwy, wedi nodi dyddiad ar gyfer cyflawni hyn a phwy fyddai'n gyfrifol am hyn. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd nifer o'r camau a nodwyd yn yr archwiliad hwn eisoes wedi'u rhoi ar waith ac wedi'u cwblhau. Roedd yr adroddiad ansawdd

gofal diweddaraf yn nodi pa welliannau a wnaed a beth yw'r blaenoriaethau cyfredol. Roedd yr adborth yn cynnwys sylwadau gan y bobl a'u teuluoedd a gasglwyd trwy arolygon, cyfarfodydd preswylwyr a theuluoedd a llwyfannau adolygu ar-lein.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 80 | Nid yw'r darparwr yn monitro, yn adolygu nac yn goruchwylio ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn cael eu cwblhau ac nid ydynt yn cynnwys tystiolaeth bod y bobl yn cael eu cynnwys wrth bennu eu hanghenion gofal na sut y cânt eu diwallu. | Cyflawnwyd |
| 35 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau y caiff y staff eu recriwtio'n unol â'r rheoliadau. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 34 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflogi nifer digonol o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas, gan gynnwys nyrsys cofrestredig. | Cyflawnwyd |
| 6 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y cartref yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y bobl, yn eu cadw'n ddiogel ac sydd o fudd iddynt. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/06/2023